

Adroddiad AGIC



**Sut mae gwasanaethau gofal iechyd
yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc?**



Ebrill 2019



Fersiwn hawdd ei darllen



Mae'r adroddiad yma yn trafod:



- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).



Mae hyn yn golygu lle i bobl ifanc dan 18 oed aros i gael eu trin gan wasanaethau iechyd meddwl.



- Bod yn yr ysbyty pan rydych chi'n blentyn neu'n berson ifanc.



- Gofal plant mewn hosbisau.



- Symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.



Roedden ni eisiau gweld beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid.



Gwnaethon ni hyn drwy edrych ar adroddiadau am arolygiadau rydyn ni wedi'u hysgrifennu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

1. ____
2. ____
3. ____

Pwyntiau pwysig



Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael gofal da pan fyddan nhw yn yr ysbyty.



Rydyn ni'n poeni am bobl ifanc sydd angen gofal iechyd meddwl mewn ysbytai.




Rydyn ni'n siomedig i weld bod rhai o'r un problemau'n dal i ddigwydd pan fydd pobl yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.



Mae angen gwneud mwy o waith i helpu pobl ifanc sydd ag anghenion iechyd difrifol a phlant a allai farw'n gynnar, pan fyddan nhw'n symud i wasanaethau oedolion.



Roedden ni eisiau gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd pan fydd pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn symud i wasanaethau oedolion.



Mae angen cael rheolau i Gymru gyfan pan fydd hyn yn digwydd.



Unedau CAMHS i gleifion mewnol



Mae hyn yn golygu lle i bobl ifanc o dan 18 oed aros i gael eu trin gan wasanaethau iechyd meddwl.



Gwnaethon ni edrych ar dair uned.



Gwelson ni bethau da.



Roedd y staff yn gweithio'n galed i roi gofal da.



Roedd gweithwyr proffesiynol gwahanol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Help i deuluoedd a gofalwyr.



Mae systemau ar gael i wrando ar bobl ifanc, a dysgu o'r hyn maen nhw'n ei ddweud.



Roedd y bobl ifanc yn cael eu cynnwys yn eu gofal.



Gwelson ni bethau drwg.



Mae angen gwella'r adeiladau.



Mae angen i bobl ifanc a'u teuluoedd gael gwybod mwy am beth sy'n digwydd.



Mae angen i bobl ifanc wybod am wasanaethau eirioli.



Doedd dim pawb yn cael gofal diogel. Mae angen i'r systemau diogelwch fod yn well.



Mae rhestrau aros yn rhy hir.



Mae angen i'r unedau wneud yn well gyda chleifion risg uchel.



Mae angen gwella cofnodion cleifion a chynlluniau gofal.



Roedd un uned yn defnyddio gormod o atal corfforol llawn.



Roedd y tair uned yn cael trafferth i gael digon o staff â'r sgiliau iawn.



Mae gormod o bobl ifanc yn gorfod mynd i uned sy'n bell o'u cartref.



Yn gyffredinol, rydyn ni'n poeni'n fawr am unedau CAMHS. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth.



Ysbytai



Gwnaethon ni edrych ar ysbyty plant ac adran achosion brys.



Gwelson ni bethau da.



Roedd y staff yn garedig ac yn siarad â'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd am eu hiechyd.



Mae'r ystafelloedd a'r adeiladau'n addas.



Cymorth da i deuluoedd a gofalwyr.



Mae'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn ddiogel ac yn cael gofal da.



Mae'r ysbytai yn gofyn i bobl ifanc am eu barn.



Gwelson ni fod yr ysbytai'n cael eu harwain yn dda.



Gwelson ni rai pethau drwg.



Mae'n cymryd gormod o amser i gael y gofal iawn.



Dyw'r gwaith papur ddim yn cael ei wneud yn dda bob amser.



Dyw rhai o'r staff ddim wedi cael hyfforddiant diogelu.



Roedden nhw'n cael trafferth i gael digon o staff â'r sgiliau iawn.



Doedd yr adran achosion brys ddim yn gallu trin plant a phobl ifanc yn y rhan o'r ysbyty sydd ar gyfer plant bob amser.



Hosbisau



Mae hosbis yn cefnogi rhywun ar ddiwedd ei fywyd.



Gwnaethon ni edrych ar ddwy hosbis i blant.



Gwelson ni bethau da.



Mae pobl ifanc yn cael gofal diogel
a da.




Roedd y staff yn garedig ac yn
ofalgar.



Roedd help i deuluoedd, gan
gynnwys cwnsela.



Roedd y bobl ifanc yn cael help i
wneud gweithgareddau.



Roedd plant, pobl ifanc a'u
teuluoedd yn helpu i wneud
penderfyniadau am eu gofal.



Roedd y staff yn parchu dymuniadau
pobl am ofal ar ddiwedd oes, a beth
sy'n digwydd ar ôl i rywun farw.



Roedd yr hosbisau'n cael eu rhedeg
yn dda.



Gwelson ni rai pethau drwg.



Mae angen edrych ar ddiogelwch yr adeiladau.



Mae angen mwy o help ar bobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw.



Mae angen gwneud yn siŵr bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n poeni am eu gofal.



Symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.



Gwelson ni bethau da.



Rydych chi fod i gael gweithiwr allweddol arbennig a chyfarfodydd gyda gwasanaethau eraill. Mae hyn yn digwydd fel arfer.



Mae symud i wasanaethau oedolion yn gweithio'n dda i rai pobl ifanc â rhai cyflyrau, fel diabetes.



Mae'r apwyntiad cyntaf gyda'r gwasanaethau oedolion yn gallu cynnwys rhywun o'r gwasanaethau plant, er mwyn helpu i bethau fynd yn haws.



Gwelson ni rai pethau drwg.



Mae rhai rhannau o Gymru'n gwneud yn well nag eraill.



Dyw'r gwaith cynllunio ddim yn dechrau'n ddigon cynnar bob amser.



Mae angen mwy o bobl ac amser i wneud yn siŵr bod y trosglwyddo'n mynd yn dda.



Mae angen cynlluniau a chymorth gwell ar bobl ifanc sydd ag anghenion iechyd difrifol a phlant a allai farw'n gynnar.



Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael profiad gwael. Mae'n gallu teimlo fel 'syrthio oddi ar glogwyn'.



Dyw gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ddim yn cynnig yr un gwasanaethau. Felly, mae'n bosibl na fydd y bydd person ifanc yn cael y cymorth iawn pan fydd yn dod yn oedolyn.



Dyw pobl ddim yn gofyn i'r bobl ifanc a yw'r broses drosglwyddo wedi cael ei gwneud yn dda bob amser.



Mae rhai pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael eu trin fel petasen nhw'n oedolion yn barod. Er enghraifft, efallai y byddan nhw'n cael eu rhoi ar ward iechyd meddwl oedolion.



Mae pobl yn gwybod am y problemau hyn yn barod. Mae angen i'r Byrddau Iechyd wneud rhywbeth.



Pethau rydyn ni am eu gweld yn digwydd.



Mae pethau rydyn ni am i'r byrddau iechyd eu gwneud.



Mae pethau rydyn ni am i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau eu gwneud.



Mae pethau rydyn ni am i Lywodraeth Cymru eu gwneud.



**Pethau rydyn ni am iddyn nhw
ddigwydd i CAMHS.**



Mae angen i bobl ifanc gael
ystafelloedd ac adeiladau sy'n
ddiogel ac yn addas ar eu cyfer.



Cyfathrebu'n glir. Mae angen i bobl
ifanc ddeall eu triniaeth.



Mae angen gwybodaeth glir ar bobl
ifanc a'u teuluoedd pan fyddan
nhw'n cael eu hanfon at wasanaeth.



Y gwasanaethau iawn. Mae angen i
bobl ifanc gael yr help iawn, gan
gynnwys yr help iawn i bobl ifanc sy'n
sâl iawn.



Mae angen edrych ar amseroedd aros.

Rhaid i bobl ifanc wybod ble i gael help tra byddan nhw'n aros.

Rhaid iddyn nhw wybod sut i gael gafael ar help mewn argyfwng.



Mae angen i bobl ifanc gael gwybodaeth glir am wasanaethau eirioli. Mae angen iddyn nhw allu cwrdd ag eiriolwr ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw.



Mae angen i bobl ifanc gael gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n poeni am eu gofal.



Rhaid i'r gwaith papur fod yn iawn.

Rhaid i'r offer cymorth cyntaf brys fod ar gael yn hawdd.

Rhaid bod staff yn gwybod sut i helpu a monitro cleifion cyn, yn ystod ac ar ôl amser bwyd.

Rhaid newid y ffordd y mae atal corfforol yn cael ei ddefnyddio.



Mae angen rhoi hyfforddiant diogelu i bawb sy'n gweithio yn CAMHS.



Mae angen i bobl ifanc gael digon o staff sydd â'r sgiliau iawn.



Pethau rydyn ni am iddyn nhw ddigwydd mewn ysbytai.



Trin pob plentyn a pherson ifanc yn y rhan o'r ysbyty sydd ar gyfer plant.



Ddylai pobl ifanc ddim gorfod aros yn rhy hir mewn adrannau achosion brys.



Bydd pobl ifanc yn gwybod beth i'w wneud os byddan nhw'n poeni am eu gofal.



Mae'r gwaith papur sy'n ymwneud â risgiau a phoen yn cael ei wneud yn dda.



Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu.



Mae digon o staff sydd â'r sgiliau iawn.



Mae'r ystafelloedd a'r adeiladau'n ddiogel ac yn addas i bobl ifanc. Mae pobl yn nodi unrhyw risgiau ac yn delio â nhw.



Mae'r plant, y bobl ifanc a'u teuluoedd i **gyd**, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio cymhorthion clyw, yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



Argymhellion ar gyfer hosbisau i blant.



Mae pawb yn gallu cael gafael ar ofal lliniarol, lle bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru.



Mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn gwybod sut i roi gwybod i bobl os ydyn nhw'n poeni am eu gofal.



Argymhellion ar gyfer symud i wasanaethau oedolion.



Mae pob gwasanaeth yn ysgrifennu'n glir sut y bydd y broses o symud i wasanaethau oedolion yn digwydd.



Mae'r byrddau iechyd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gwneud beth maen nhw'n ei ddweud.



Pan fydd pobl ifanc yn symud i wasanaethau oedolion, bydd y gwasanaethau'n cwrdd â'u hanghenion gan fod digon o arian a staff ar gael a bydd y gwasanaethau iawn ar gael hefyd.




Mae gan bob person ifanc weithiwr allweddol arbennig. Mae'r gweithiwr allweddol yn gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn symud i wasanaethau oedolion yn ddidrafferth.



Mae pobl ifanc yn helpu i gynllunio'r ffordd y mae'r broses o symud i wasanaethau oedolion yn gweithio.



Mae'r bobl ifanc yn helpu i gynllunio'r ffordd y maen nhw eu hunain yn symud i wasanaethau oedolion.



Mae'r cynlluniau ar gyfer symud yn dechrau'n ddigon cynnar i wneud yn siŵr ei fod yn digwydd yn ddidrafferth.



Dylai pob gwasanaeth ddechrau cynllunio'r symud cyn bod y person ifanc yn 16 oed.



Bydd y mathau iawn o gynlluniau ar waith ar gyfer y dyfodol i bobl ifanc sydd ag anghenion iechyd difrifol a phlant a allai farw'n gynnar.



Bydd y byrddau iechyd yn gwybod pa bobl ifanc fydd angen gwasanaethau oedolion. Byddan nhw'n helpu pobl ifanc i fynd i apwyntiadau gyda gwasanaethau oedolion.



Bydd y gwasanaethau oedolion yn gweithio gyda'r bobl ifanc a'r gwasanaethau eraill i wneud yn siŵr bod y symud yn gallu digwydd yn ddidrafferth.



Mae gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn cynnwys gwahanol fathau o wasanaethau ac mae ganddyn nhw wahanol reolau am bwy sy'n cael gwasanaeth.

Bydd sylw yn cael ei roi i hyn. Fydd hyn ddim yn cael atal pobl ifanc rhag parhau i gael yr help sydd ei angen arnyn nhw.



Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'r broses o symud i wasanaethau oedolion.



Mae'r gwasanaethau'n cofio bod pobl ifanc 16 ac 17 oed ddim yn oedolion. Bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael y driniaeth iawn gan staff â'r sgiliau iawn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd Llywodraeth Cymru'n dweud yn glir sut y dylai pobl ifanc o dan 18 oed gael eu trin gan y gwasanaethau iechyd.



Mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn wardiau iechyd meddwl oedolion ambell waith. Bydd sylw yn cael ei roi i hyn.



Mae pobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu rhoi ar wardiau ysbyty oedolion ambell waith. Bydd sylw yn cael ei roi i hyn.